



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Ymgynghoriad ar Daliadau Cyfleusterau Deunyddiau 2014 Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Adolygiad Rhif

## Cynnwys

1.	<u>Cynnwys .....</u>	<u>3</u>
	<u>Ein cynigion .....</u>	<u>3</u>
2.	<u>Taliadau Diogelu'r Amgylchedd .....</u>	<u>4</u>
3.	<u>Camau Nesaf .....</u>	<u>5</u>
	<u>Atodiad 1</u>	<u>6</u>
	<u>CRYNODEB O'R YMATEBION I'N CYNIGION</u>	<u>6</u>
	<u>DADANSODDIAD O'R YMATEBION I GYNIGION TALIADAU CYFLEUSTERAU</u> <u>DEUNYDDIAU CYFOETH NATURIOL CYMRU 2014</u>	<u>6</u>
	<u>DADANSODDIAD O'R YMATEBION I'R CWESTIWN CODI TÂL</u>	<u>6</u>
	<u>RHESTR O'R YMGYNGHOREION A YMATEBODD I YMGYNGHORIAD TALIADAU</u> <u>CYFLEUSTERAU DEUNYDDIAU CYFOETH NATURIOL CYMRU 2014</u>	<u>6</u>
	<u>Atodiad 2</u>	<u>7</u>
	<u>SYLWADAU CYFOETH NATURIOL CYMRU AR YR YMATEBION I'N NEWIDIADAU</u> <u>ARFAETHEDIG I'R CYNLLUN TALIADAU TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL</u>	<u>7</u>

## 1. CYFLWYNIAD

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i adennill costau am rai o'i wasanaethau, yn unol â deddfwriaeth. O dan y pwerau hyn, mae pobl a sefydliadau sydd angen trwydded amgylcheddol neu wasanaethau penodol yn talu am gost y gwasanaeth hwnnw, yn hytrach na bod trethiant cyffredinol yn ysgwyddo'r gost.

Gwnaethom ymgynghori ar godi tâl am fonitro rhai Cyfleusterau Deunyddiau yn dilyn atodiad diweddar i Reolau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)(Diwygio) 2014.

Defnyddiom ni dudalen we Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn unol ag egwyddorion ymgynghori diwygiedig y llywodraeth yn rhedeg am 8 wythnos o 9 Ebrill hyd at 3 Mehefin 2014. Trwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad, roedd y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael ar ein gwefan. Gellir dod o hyd i'r tudalennau hyn ar:

<http://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/Consultations/our-own-consultations/consultation-on-materials-facilities-charges-2014/?jsessionid=50FE2BB33911E491145018233264EE0E?lang=cy>

Gwnaethom hefyd e-bostio partïon â diddordeb er mwyn eu hysbysu am y ddolen i'r ddogfen a'r dyddiad cau, ynghyd â'r holl wybodaeth sydd ar gael ar y we trwy wefannau'r llywodraeth a gwefan WRAP. Roedd y dudalen we yn dweud wrth ymgynghoreion i gyflwyno'u sylwadau trwy e-bost neu yn ysgrifenedig.

Derbyniom gyfanswm o 4 ymateb; mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad 1.

### Ein cynigion

Yn ystod y cyfnod breinio ym mis Ebrill 2013, penderfynodd Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i godi tâl yn unol â chynllun codi tâl Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y rhan fwyaf o'i waith rheoleiddio busnesau yng Nghymru tan fis Mawrth 2015.

Ar gyfer 2014/15 roedd ein hymgynghoriad ar daliadau wedi'i seilio'n llwyr ar yr angen i gyflwyno ffioedd a thaliadau newydd i ymdrin â'r gwaith ychwanegol a oedd yn ofynnol er mwyn gweithredu Atodlen 9A Rheolau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)(Diwygio) 2014, a oedd yn ymdrin â rheoliadau ychwanegol ar gyfer cyfleusterau deunyddiau.

Mae'r rheoliadau'n effeithio ar tua 30 o ddeiliaid trwyddedau gwastraff presennol yng Nghymru. Gofynnir i weithredwyr samplu, cofnodi ac adrodd bob chwarter trwy ddulliau electronig. Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yw cynnal archwiliadau i asesu cadernid proses adrodd gweithredwyr.

Mae'r tâl a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn cynnwys costau rheoleiddio disgwylidiedig archwiliad blynyddol cynlluniedig, archwiliad blynyddol heb ei gynllunio, ac ymgymryd ag unrhyw gamau dilynol gyda gweithredwyr sydd angen cymorth i gydymffurfio. Mae hyn yn unol â gofynion y rheoliadau. Mae'r tâl hefyd yn cyllido rheolaeth data a adroddir gan weithredwyr.

Rhoddir manylion ein cynigion yn **Adran 2**. Rhoddir manylion yr ymatebion a dderbyniwyd yn **Atodiad 1**, ar y cyd â chrynodeb o'n sylwadau. Rhoddir ein sylwadau i'r ymatebion i'n hychwanegiad arfaethedig i'r Cynllun Taliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn **Atodiad 2**.

## 2. Taliadau Diogelu'r Amgylchedd

Mae cyflwyno gofynion rheoleiddio ar gyfer cyfleusterau deunyddiau yn Atodlen 9A Rheolau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)(Diwygio) 2014 yn golygu ei bod hi'n ofynnol inni ddarparu math o reoleiddiad ar gyfer y cyfleusterau hyn sy'n sylweddol wahanol i'r rheoleiddio amgylcheddol cyffredin sy'n canolbwyntio ar atal difrod amgylcheddol lleol.

Y gofynion newydd yw i ni ddisodli, trwy ein gweithgarwch rheoleiddio, archwiliad trydydd parti o gywirdeb y data ar ansawdd deunyddiau, a gynigwyd gan y llywodraeth yn wreiddiol yn eu papur ymgynghori **Environmental Permitting Consultation on draft Materials Recovery Facility (MRF) Regulations for insertion into Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2013** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013 ac sydd ar gael o wefan gov.uk. Teimlai'r diwydiant gwastraff yn eu hymateb i bapur ymgynghori'r llywodraeth y dylid cynnal yr archwiliad gan y rheoleiddiwr yn hytrach na chan drydydd parti. Nodwyd gan y llywodraeth a chorff masnachu'r diwydiant gwastraff y byddai hyn yn ddarn sylweddol o waith ychwanegol i'r rheoleiddiwr, ac mewn egwyddor, roedd yn cefnogi'r cynigiad y byddem yn codi tâl ychwanegol o fewn y cynllun ffioedd a thaliadau ar gyfer cyfleusterau deunyddiau fel y'u diffiniwyd yn y rheoliadau hyn.

Mae'r taliadau hyn yn seiliedig ar yr amser sy'n ofynnol i ddarparu dadansoddiad angenrheidiol o'r data a ddarperir gan y gweithredwr mewn ffurflenni data, sy'n ofynnol gan y rheoliadau hyn, ac archwiliad y data gan gynnwys y data a gedwir gan y gweithredwr ac a grynhoir yn eu ffurflenni chwarterol. Byddai'r gweithgarwch hwn yn cael ei ddarparu trwy ymweliadau ychwanegol â'r Cyfleusterau Deunyddiau, sy'n canolbwyntio ar y data a gyflenwir mewn ffurflenni gwastraff ar ansawdd y deunyddiau yr adroddir arnynt ar gyfer deunyddiau mewnbwn cymysg a deunyddiau ffrydiau gwahanedig a allforir, a'r dulliau dadansoddi cyfansoddiad deunyddiau a systemau a osodir gan weithredwyr y cyfleuster. Dylunnir y gweithgarwch rheoleiddio hwn yn benodol er mwyn cyflawni'r anghenion ar gyfer dilysu'r data a gyflenwir i'r rheoleiddiwr a fydd ar gael i'r cyhoedd.

Byddwn yn monitro ein hincwm yn erbyn ein gwariant ar sail cyfundrefn wrth gyfundrefn, gan ddefnyddio arbedion effeithlonrwydd er mwyn gwrthbwysu pwysau lle bo'n bosibl.

Cwestiynau yn y papur ymgynghori.

Cwestiwn 1: A ydych chi'n teimlo bod gennych ddigon o wybodaeth i ddeall a ydych chi'n gymwys o dan y gofyniad newydd?

Cwestiwn 2: A ydych chi'n cefnogi ein cynnig i adfer ein costau rheoleiddio trwy godi tâl o £2,065 ar gyfleusterau perthnasol?

Cwestiwn 3: Pan fydd busnes wedi cael cyfle i fewnosod y trefniadau adrodd, a fydddech chi'n cefnogi rhagor o daliadau ac archwiliadau wedi'u targedu yn y dyfodol?

Cwestiwn 4: A fyddech chi'n cefnogi integreiddio taliadau yn y dyfodol ar gyfer rheoliadau Cyfleusterau Deunyddiau o fewn cynllun codi tâl ehangach ar gyfer Trwyddedu Amgylcheddol?

Byddem yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau o'r fath.

### Crynodeb o'r Newidiadau Arfaethedig

Byddai'r tâl Cyfleuster Deunyddiau ychwanegol yn cael ei godi'n flynyddol ar gyfradd o £2,065 y flwyddyn. Mae wedi'i osod ar lefel er mwyn adfer ein costau rheoleiddio, y disgwylwn i gynnwys:

- Un arolwg a drefnwyd o flaen llaw
- O leiaf un arolwg dirybudd bob blwyddyn ar gyfer bob safle

Byddai'r ymweliadau yn gwirio systemau gweithredu ar gyfer samplu, mesur a chofnodi ansawdd deunyddiau ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau gwastraff er mwyn sicrhau bod data a adroddwyd yn gynrychioliadol. Rydym hefyd wedi darparu ar gyfer rheoli data a adroddwyd gan y gweithredwyr.

Byddem hefyd yn disgwyl cynnal ymweliadau pellach i'r safleoedd hynny yr ystyriwn nad ydynt yn cydymffurfio.

Derbyniodd y cynnig hwn 2 ymateb negyddol a 2 ymateb cefnogol.

### **3. CAMAU NESAF**

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn ganolog i'r cais i'r llywodraeth er cymeradwyaeth o'n hychwanegiad i'r cynlluniau codi tâl ar gyfer 2014-15. Os ydynt yn cael eu gymeradwyo, bydd ein cynlluniau codi tâl a chyfarwyddyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a byddant yn weithredol o 1 Hydref 2014. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o godi tâl, bydd anfonebau a gyhoeddir yn ystod Hydref 2014 yn ymwneud â'r cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015. Bydd y tâl ar gyfradd ostyngol (£1,035) er mwyn adlewyrchu bod y rheoliadau'n dod i rym hanner ffordd drwy'r flwyddyn. O fis Ebrill 2015, byddwn yn codi tâl ar y raddfa flynyddol lawn sy'n berthnasol, y bwriedir ar hyn o bryd i fod yn £2,065. Bydd angen Llywodraeth Cymru adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

## Atodiad 1

### CRYNODEB O'R YMATEBION I'N CYNIGION

Roeddem yn dymuno sicrhau bod pob grŵp sy'n debygol o gael eu heffeithio yn ymwybodol o'n cynigion, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl, ac felly yn ogystal â'n trefniadau arferol o roi gwybod i randdeiliaid allweddol am lansiad yr ymgynghoriad, gwnaethom anfon swp-lythyrau a oedd wedi'u targedu at 35 o ddeiliaid trwyddedau y tybiem y byddai'r cynnig hwn yn effeithio arnynt.

Derbyniom gyfanswm o 4 ymateb, 2 gan weithredwyr cyfleusterau, 1 gan sefydliad cynladwyedd yng Nghymru ac 1 gan gangen Cymru'r sefydliad proffesiynol gwastraff ac adnoddau. Byddai'n deg nodi bod yr ymatebion wedi'u rhannu'n fras 50:50 rhwng cefnogol a negyddol.

### DADANSODDIAD O'R YMATEBION I GYNIGION TALIADAU CYFLEUSTERAU DEUNYDDIAU CYFOETH NATURIOL CYMRU 2014

Ymatebion	Cadarnhaol	Ddim yn gwybod	Amherthnasol	Negyddol
Cwestiwn 1	3			1
Cwestiwn 2	2			2
Cwestiwn 3	2	1		1
Cwestiwn 4	2			2

### DADANSODDIAD O'R YMATEBION I'R CWESTIWN CODI TÂL

	Cadarnhaol	Negyddol	%
Egwyddor a lefel y taliadau	2	2	50%

Roedd y canlyniadau'n amwys gyda rhaniad 50:50 yn yr ymatebion, ond mae angen cyllido'r gofyniad rheoleiddio hwn, naill ai trwy ffioedd a thaliadau neu grantiau cymorth.

### RHESTR O'R YMGYNGHOREION A YMATEBODD I YMGYNGHORIAD TALIADAU CYFLEUSTERAU DEUNYDDIAU CYFOETH NATURIOL CYMRU 2014

Sefydliad	Dealltwriaeth	Taliadau	Cynyddu archwiliadau a dargedwyd	Integreiddio i gynllun taliadau Trwyddedu Amgylcheddol ehangach
C B Environmental Ltd	✓	✓	✓	✓
Cymru Gynhaliol	✓	✓	✓	✓
Potters Waste Management	✓	✓	✓	✓
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff, Canolfan Cymru	✓	✓	✓	✓

## Atodiad 2

### SYLWADAU CYFOETH NATURIOL CYMRU AR YR YMATEBION I'N NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYNLLUN TALIADAU TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL

O'r ymatebion i **gwestiwn 1**, dim ond un o'r ymatebwyr a deimlai fod y wybodaeth yn annigonol er mwyn deall a oeddent yn gymwys o dan y gofyniad newydd hwn, ac a oedd wedi gorfod gwirio'r rheoliadau a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth er mwyn deall y gofynion rheoleiddio'n llawn. Nododd dau o'r ymatebwyr bod y blychau testun yn anghyflawn. Roedd y broblem ddiwethaf wedi'i hachosi gan fater gweinyddol a byddwn yn sicrhau bod y diagram yn cael ei gyhoeddi yn ei ffurf gyflawn ar ein gwefan ar y rheoliadau hyn maes o law.

Roedd **Cwestiwn 2** yn ymwneud â chyflwyno tâl cynhaliaeth newydd i'w gymhwysu i gyfleusterau deunyddiau fel y'u diffiniwyd yn y rheoliadau. Roedd lefel y ffi yn ddadleuol; fodd bynnag, roedd dau o'r ymatebwyr yn gefnogol i egwyddor y taliadau. Teimlai dau o'r ymatebwyr y dylai fod amrywiad yn y taliadau yn unol â maint y safle a rhifau mewnbwn ac allbwn y llifoedd gwastraff a oedd angen eu samplu yn y safleoedd. Archwiliom ni hwn fel dewis posibl ar gyfer llunio'r sylfaen ar gyfer codi tâl ond daethom i gasgliad na fyddai'r amrywiad a oedd ei angen yn yr ymdrech reoleiddio rhwng cyfleusterau bach a chyfleusterau mawr fel y'u diffiniwyd gan feintiau mewnbwn gwastraff yng Nghymru yn arwain at gostau sylweddol wahanol. Y prif ffactor fyddai nifer y cyflenwyr yn ogystal â maint ac amrediad y graddau neu fathau o allbwn; gallai'r wybodaeth hon newid o bosibl yn ystod y flwyddyn gan ddarparu diffyg eglurder cyllidebol i ni a'r gymuned a reoleiddir, ac felly ni ddefnyddiwyd hyn fel sail ar gyfer taliadau. Codwyd cwestiynau hefyd ar sail y tâl a godir, mae hyn yn seiliedig ar ofyniad amser disgwylidig o 21 awr y flwyddyn ar gyfer y cyfleusterau deunyddiau a fyddai'n darparu cyllid i gynnwys dau ymweliad y flwyddyn gan gynnwys amser i baratoi ar gyfer yr ymweliad, amser i wirio data cyn yr ymweliad ac amser teithio. Nid oedd y taliadau'n cynnwys amser ychwanegol gofynnol ar gyfer problemau cydymffurfio ar safleoedd.

Roedd sylwadau eraill o ran maint y tâl, a diffyg dealltwriaeth o sail y taliadau y mae gweithredwyr yn eu talu ar hyn o bryd, ac nid oeddent yn teimlo bod unrhyw fudd gweithredol iddynt wrth dalu'r ffi. Ni chredai un ymatebydd ein bod yn gweithredu ar ôl derbyn y ffurflenni gwastraff chwarterol cyfredol, ac nid oedd yn credu y byddai unrhyw wahaniaeth yn yr ymdriniaeth gyda'r rheoliadau newydd. Awgrymwyd hefyd y dylid adennill y costau o ffioedd a thaliadau presennol yn hytrach na chodi tâl ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r ffioedd presennol yn talu am gostau rheoleiddio amgylcheddol sylfaenol yn y cyfleusterau â thrwyddedau cyfredol, ac nid yw hyn yn darparu digon o amser i swyddog fod ar gael i archwilio manylion cynnwys mewnbynnau neu allbynnau o'r math hwn o gyfleuster; ar hyn o bryd, mae archwilio cyfansoddiad gwastraff yn fanwl yn digwydd yn unol ag ymlyniad i amodau trwyddedu meini prawf derbyn gwastraff mewn cyfleusterau sy'n derbyn gwastraff peryglus yn unig. Cyfeiriodd un ymatebydd at y ffaith y byddai'n rhaid i weithredwyr dalu taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â chost ychwanegol systemau samplu, mesur a chofnodi sydd i'w gosod yn eu cyfleuster, ond nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth bod y rheoleiddiadau fel yr ymgynghorwyd arnynt yn cynnwys y gofyniad i'r cyfleusterau gael archwiliad annibynnol o'u dulliau samplu a'r canlyniadau, ac i ddarparu hynny i'r rheoleidiwr ynghyd â'r ffurflen data a fydd fwy na thebyg yn costio mwy na thâl arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd hefyd cais y dylem adolygu'r taliadau hyn ar ôl tua dwy flynedd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiwygiadau y gellir eu gwneud. Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r broses adolygu taliadau arferol.

**Yng Nghwestiwn 3** trafodwyd a fyddai busnesau'n cefnogi archwiliadau a thaliadau mwy targededig yn y dyfodol, wedi iddynt wreiddio'r trefniadau hysbysu newydd. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol, wrth i rai gefnogi darparu taliadau ychwanegol i safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio sy'n adlewyrchu'r gwaith rheoleiddio ychwanegol gofynnol. Teimlai eraill eu bod, fel gweithredwyr masnachol, yn gwerthu eu cynnyrch i ddefnyddwyr, ac os nad yw'r cwsmer yn hoffi'r cynnyrch, ni fyddant yn talu neu ni fyddant yn dychwelyd eto, fodd bynnag, mae hyn yn methu'r pwynt o ddarparu sicrwydd i'r defnyddiwr y bydd y cynnyrch yn bodloni eu hanghenion o ran ansawdd, sef diben y rheoleiddiadau.

Yng **ngwestiwn 4** rhoddwyd sylw i'r posibilrwydd o ymgorffori'r taliadau ychwanegol i gynllun ehangach taliadau cyfleusterau deunyddiau ar gyfer Trwyddedu Amgylcheddol; arweiniodd hyn at adborth amrywiol unwaith eto. Roedd dau o'r ymatebwyr yn gadarnhaol am hyn, a dau yn negyddol, naill ai oherwydd anghytuno sylfaenol â'r angen am dâl ychwanegol neu ddiffyg dealltwriaeth ynghylch sail y taliadau presennol





**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Published by:  
Natural Resources Wales  
Cambria House  
29 Newport Road  
Cardiff  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Mon-Fri, 8am - 6pm)

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)

© Natural Resources Wales

All rights reserved. This document may be reproduced with prior permission of  
Natural Resources Wales